

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 21 Hydref 2021 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cynghorydd Brian Jones - Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Christine Marston ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, (Swyddog Monitro) (GW), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW), Peiriannydd Perygl Llifogydd (WH), Cydlynnydd Craffu (RhE), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ, Gwesteiwr), (RTJ).

Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol - Keith Ivens, Daniel Bryce-Smith a Paula Harley.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wrth y Pwyllgor y byddai cefnogaeth gorfforaethol ar gyfer y Pwyllgor, yn dilyn penodi'r cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus i rôl y Prif Weithredwr, yn cael ei darparu ganddo ef a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 bob yn ail nes rhoddir gwybod ymhellach.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Medi 2021.

Materion yn codi –

Gofynnodd y Cyngorydd Merfyn Parry a oedd diweddariad am y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt, ac a fyddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal am y mater. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Cyngorydd Parry fod y mater wedi'i gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer mis Medi 2022, fodd bynnag byddai'n cysylltu â swyddogion a gweld a ellid dosbarthu adroddiad ysgrifenedig i aelodau'r pwyllgor.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2021 fel cofnod cywir.

5 ADRODDIAD ADRAN 19 - YMCHWILIAD I LIFOGYDD AR 20 IONAWR 2021

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, a'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r Peiriannydd Perygl Llifogydd Adroddiad Adran 19 - Ymchwiliad i Llifogydd ar 20 Ionawr 2021 (a ddsbarthwyd eisoes).

Yn ystod eu cyflwyniad, gwnaethant egluro fod Storm Christoph wedi dod â gwyntoedd cryfion, glaw trwm ac eira rhwng 18 a 20 Ionawr 2021, gyda'r glawiad dwysaf yn digwydd dros Ogledd Cymru a gogledd Lloegr, gan ddod â llifogydd lleol i lawer o ardaloedd. Adroddodd y Swyddfa Dywydd fod 50 i 100mm o law wedi cwmpo'n eang ledled Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gyda dros 100mm ar draws ardaloedd ucheldirol Cymru. Profodd Sir Ddinbych effeithiau'r Storm hon, gyda glaw trwm ac estynedig yn peri llifogydd i oddeutu 67 o gartrefi a 6 busnes ar 20 Ionawr. Roedd mwyafrif y llifogydd yn dod o ffynonellau prif afonydd. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod rheoli risg llifogydd perthnasol ar gyfer prif afonydd, wedi cynnal ei ymchwiliadau llifogydd ei hun. Roedd adroddiadau ymchwilio i lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad ymchwiliad trosfwaol.

Roedd gan Gyngor Sir Ddinbych, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, ddyletswydd o dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i archwilio llifogydd yn ei ardal.

Diben adroddiad yr archwiliad oedd mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol canlynol:

- Pam ddigwyddodd y llifogydd?
- Pa mor debygol y bydd llifogydd o'r raddfa honno yn digwydd eto?
- Pa welliannau oedd eu hangen i sicrhau bod risg llifogydd y Sir yn cael ei rheoli'n briodol yn y dyfodol?

Cyn dechrau'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Tir Glannau Afon, a oedd yn archwilio materion llifogydd a materion perchnogaeth tir ar hyn o bryd wedi sylweddoli bod y rhain yn feysydd hynod o gymhleth. Roedd sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor yn awdurdodau rheoli risg, fodd bynnag, yn anaml iawn mai nhw oedd y perchnogion tir oedd â chyfrifoldeb i sicrhau bod afonydd a chyrsgiau dŵr a oedd yn croesi eu tir yn cael eu cynnal a'u cadw.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor, darparwyd y manylion canlynol:

- Eglurodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru fod perchnogion tir, fel perchnogion glannau'r afon yn gyfrifol am gynnal a chadw afonydd o fewn ffiniau eu tir. Roedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Chyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdodau rheoli perygl llifogydd, a Chyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gyfrifol am brif afonydd a chyrsiau dŵr mwy a CSDd oedd yr awdurdod rheoli risg ar gyfer cyrsiau dŵr arferol.
- Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a CSDd ddefnyddio eu pwerau i wneud gwaith ar ddyfrffyrdd at ddibenion lliniaru perygl llifogydd posibl. Pe bai perchennog tir am wneud gwaith, roedd ganddynt hawl cyfreithiol i'w wneud, fodd bynnag byddai angen i'r gwaith hwn sicrhau nad oedd effaith andwyol ar natur, ecosystem yr afon nac ar bobl eraill. Byddai angen Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd cyn i unrhyw waith gael ei wneud.
- Nodwyd bod Llanynys wedi'i adael allan o'r adroddiad. Gofynnodd yr aelod lleol fod Llanynys yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad oherwydd nid oedd am i'r pentref fethu allan ar unrhyw waith lliniaru perygl llifogydd posibl yn y dyfodol.
- Nid oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at golli Pont Llannerch, oherwydd bod yr adroddiad yn delio ag effaith llifogydd ar eiddo. Fodd bynnag, nid oedd hyn mewn unrhyw ffordd yn lleihau'r effaith yr oedd colli'r bont wedi'i chael ar y cymunedau roedd yn eu gwasanaethu na'r rhwydwaith trafniadaeth ehangach yn y sir. Roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddatblygu cyswllt cludiant yn ei le wedi dod i ben yn ddiweddar, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.
- Cadarnhaodd Swyddogion eu bod wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru (LIC) i edrych ar amddiffynfeydd llifogydd naturiol, a gobeithiwyd y byddai hyn yn datblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, dywedwyd pe bai'r amddiffynfeydd naturiol yn orlawn o ddŵr, yna effaith fach fyddai o ran lleihau llifogydd.
- Cadarnhawyd nad problemau o ran draenio achosodd y llifogydd yn ardal Stryd Clwyd Rhuthun. Roedd y llifogydd o ganlyniad i gyfaint enfawr o ddŵr na fyddai unrhyw gynllun amddiffyn rhag llifogydd wedi gallu ei atal. Roedd draeniau a cheunentydd yn cael eu clirio'n rheolaidd. Roedd systemau draenio priffydd yn cael eu harchwilio a'u glanhau o leiaf unwaith y flwyddyn, fodd bynnag roedd ardaloedd problemus yn cael eu clirio'n amlach.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diweddarau ei waith modelu perygl llifogydd ar ardal Rhuthun yn dilyn llifogydd mis Ionawr 2021. O ganlyniad, roedd yn gwneud cais am drwyddedau ar hyn o bryd i wneud rhagor o waith lliniaru perygl llifogydd yn yr ardal ac roedd gwaith i fod i ddechrau'r wythnos wedyn ar y bwnd yng Nghae Ddol.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys mesurau perygl llifogydd ar gyfer Afon Ystrad ym Mrwcws fel rhan o adolygiad ehangach o'r rhwydwaith.
- Cytunodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a CSDd na allai'r naill sefydliad na'r llall barhau i frwydro yn erbyn natur. Byddai angen i'r sefydliadau, yn ogystal â phreswylwyr, ganfod ffyrdd o weithio gyda natur, gan gynnwys addysgu preswylwyr am sut i lliniaru a rheoli eu perygl eu hunain o lifogydd.

Nododd Aelodau eu pryderon o ran y diffyg cynnydd canfyddedig gyda'r Hen Garchar yn Rhuthun, ac roeddent yn teimlo nad oedd y gwaith atgyweirio'n cael ei flaenoriaethu. Nid oedd yn debygol y byddai'r safle, a oedd yn brif atyniad i dwristiaid, yn ôl yn weithredol tan fis Gorffennaf 2022, hanner ffordd trwy'r tymor twristiaeth nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod preswylwyr/perchnogion busnesau mewn eiddo a oedd wedi dioddef llifogydd yn ardal Stryd y Felin/Stryd Clwyd Rhuthun wedi cael copi o Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19, a'u bod wedi anfon cwestiynau ymlaen i'r Pwyllgor eu gofyn ar eu rhan. Darllenodd yr Is-gadeirydd y cwestiynau a oedd yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Cyngor o ran rheoli perygl llifogydd, materion sy'n ymwneud â draenio a mater a oedd yn ymwneud â falf unffordd wedi'i lleoli ger yr Hen Garchar. Dywedodd Swyddogion fod y materion a oedd yn ymwneud â chyfrifoldebau rheoli risg y Cyngor a draenio eisoes wedi'u hegluro yn ystod y drafodaeth. Pwrpas y falf unffordd oedd atal dŵr o Afon Clwyd rhag mynd i'r system ddraenio gan achosi rhagor o broblemau. Roedd y falf wedi gweithredu yn ôl y disgwyl. Roedd yr ymholiad a oedd yn ymwneud â cheunentydd y briffordd wedi'u rhwystro wedi'i drin yn ystod Cam 2 o Weithdrefn Gwyno'r Cyngor ac nid oedd swyddogion mewn sefyllfa i roi rhagor o sylwadau ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn bosibl y caiff y mater ei gyfeirio at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ymchwiliad pellach.

Ar ddiwedd y drafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD –

- (i) derbyn canfyddiadau a chasgliadau Adroddiad Ymchwiliad i Llifogydd Ionawr 2021 Adran 19; a**
- (ii) nodi'r sicrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r argymhellion a nodwyd yn ei adroddiadau archwiliadau llifogydd yn cael eu cyflawni.**

6 CYFRIFOLDEBAU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD I FFOS Y RHYL A GWTER PRESTATYN

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol a'r Rheolwr Perygl Llifogydd yr adroddiad Cyfrifoldebau Rheoli Perygl Llifogydd i Ffos y Rhyl a Chafn Prestatyn. Yn ogystal â swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, roedd tri chynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol ar gyfer y drafodaeth - Keith Ivens, Daniel Bryce-Smith a Paula Harley.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno casgliadau'r astudiaeth ar y cyd, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, i ystyried a ellid gwneud gwelliannau i'r drefn o reoli Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, y draeniau a'r carthffosydd cyfagos – rhwydwaith cymhleth o gyrsiau dŵr yn ardal y Rhyl a Phrestatyn, a oedd yn cynnwys cyrsiau dŵr naturiol, rhai a oedd wedi'u haddasu, yn ogystal â dyfrffyrdd wedi'u hadeiladu. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau pob sefydliad o ran rheoli llifogydd a lliniaru llifogydd.

Ar ôl y llifogydd a effeithiodd ar rannau o'r Rhyl a Phrestatyn ym mis Gorffennaf 2017, cychwynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad ar hydroleg a threfn reoli a chynnal a chadw Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, sy'n cael eu cyfrif yn gyrsiau dŵr "prif afon". Cytunodd Cyngor Sir Ddinbych a Dŵr Cymru i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru â'r prosiect, a fyddai hefyd, gobeithio, yn rhoi gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut mae asedau pob sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig pan mae glaw trwm.

Cynhaliwyd y prosiect mewn tri cham.

- (i) Roedd Cam 1 yn cynnwys astudiaeth i fodelu'r perygl o lifogydd, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru am hydroleg dalgyloedd yr afonydd.
- (ii) Roedd Cam 2 wedi arwain at adroddiad rheoli dalgyloch, a oedd yn cynnig trosolwg eang o'r drefn o reoli Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn a'r ardaloedd o amgylch y ddau gwrs dŵr.
- (iii) Mae Cam 3 hefyd wedi adeiladu ar yr argymhellion yn adroddiad rheoli Cam 2 ac wedi cynnwys trafodaethau â thimau cynnal a chadw gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried effeithiau'r gwaith cynnal a chadw mewn gwahanol is-rannau o'r cyrsiau dŵr. Roedd rhywfaint o waith eto i'w wneud o ran llunio cynllun cynnal a chadw a rheoli cynhwysfawr a byddai angen ymgynghori â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid i wneud hyn.

Dangoswyd cyflwyniad gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Pwyllgor a oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru, CSDd a Dŵr Cymru. Roedd y tri cham cyntaf wedi'u cyflawni bellach, a byddai'r canfyddiadau'n caniatáu i dimau rheoli perygl llifogydd ddatblygu strategaethau rheoli a chynnal a chadw hirdymor.

Roedd y dull a ddilynwyd ar gyfer y trydydd cam yn seiliedig ar dystiolaeth gan ddefnyddio modelu hydrolog manwl. Roedd y gwaith hwn wedi cynnwys asesiad o effaith llystyfiant sianel (garwder), lefelau'r gwelyau, a rhwystrau mewn lleoliadau allweddol. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o waith cynnal a chadw lleol a llywio technegau rheoli effeithlon sy'n seiliedig ar beryglon ym mhob is-ran.

Yn ystod y trydydd cam, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu nodi cyfleoedd posibl ar gyfer ymyriadau cyfalaf er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd hefyd. Roedd yn cydnabod y perygl presennol o lifogydd i gymunedau Prestatyn a'r Rhyl, ac mae cynlluniau ar waith i gynnal gwerthusiad llawn o ddewisiadau ar gyfer gwaith gwella, gan ddechrau gydag Achos Amlinellol Strategol yn 2022.

Yn ystod y drafodaeth:

- diolchodd aelodau i swyddogion am y gwaith a wnaed, fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo y dylai rhai agweddau ar y gwaith fod wedi'u gwneud yn gynharach.
- Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod materion fel cynnal a chadw gerddi a waliau eiddo, a'r angen i ddiogelu darnau ac ati rhag mynd i mewn i Ffos y Rhyl neu syrthio i mewn iddi ac achosi rhwystrau, yn fater i

berchnogion glannau'r afon, h.y. perchnogion eiddo unigol. Nid Cyfoeth Naturiol Cymru oedd perchnogion y Ffos. Roedd ganddynt bwerau wedi'u caniatáu o ran gwneud gwaith i liniaru'r perygl o lifogydd o'r cwrs dŵr. At y diben hwn, roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwyntiau mynediad mewn lleoliadau penodol ar hyd y Ffos er mwyn galluogi mynediad er mwyn gwneud y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Roedd hyn yn osgoi'r angen i geisio cytundeb nifer o berchnogion glannau'r afon er mwyn gwneud gwaith hanfodol o ran cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd.

- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n cysylltu ag Adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor i gadarnhau a oedd y Cyngor yn berchennog glannau'r afon ar gyfer unrhyw ran o Ffos y Rhyl neu Gwter Prestatyn.
- Cadarnhaodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru fod y rhaglen flynyddol o waith cynnal a chadw i atal llifogydd wedi'i chyflawni ar y Ffos a'r Gwter o ddiwedd mis Awst ymlaen, pan oedd y tymor nythu adar wedi dod i ben. Dechreuodd y gwaith cynnal a chadw ar y rhannau isaf, gan weithio tuag at y rhannau uchaf.

Felly:

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod:

- derbyn cynnwys yr adroddiad, yr atodiadau a'r cyflwyniad; a*
- gofyn i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych sefydlu a oedd y Cyngor ei hun yn berchennog glannau'r afon ar gyfer unrhyw ran o Ffos y Rhyl neu Gwter Prestatyn.*

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â'r materion canlynol –

- Dywedodd y Cydlynnydd Craffu y byddai tair eitem sylweddol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i aelodau a fyddent yn hapus i gynnal y cyfarfod mewn dwy sesiwn ar wahân ar yr un diwrnod er mwyn hwyluso amseriad y drafodaeth am yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Cytunodd yr aelodau â'r cynnig hwn.
- Roedd 5 eitem ychwanegol wedi'u hychwanegu at raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn ystod cyfarfod diweddar y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, ac roedd manylion amdanynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- Gofynnodd y Cynghorydd Merfyn Parry i'r Cydlynnydd Craffu a oedd diweddariad am yr adroddiad y gofynnwyd amdano beth amser yn ôl am yr effaith ar y gymuned o ganlyniad i gau Ysgol Rhewl. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Cynghorydd Parry fod yr eitem yn dal i fod ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth aelodau fod trafodaethau'n

mynd rhagddynt rhwng swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg a swyddogion yn y Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio o ran sut i ddatblygu'r gwaith hwn.

PENDERFYNWYD: yn amodol ar y sylwadau a'r pethau i'w cynnwys uchod, cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni chafwyd unrhyw adborth gan aelodau'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45am.